

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Y Gwasanaeth Rheoleiddio a Thai

.....

### Enw'r Polisi:

Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac Euogfarnau  
Troseddol ar gyfer cyflwyno trwyddedau cerbydau hacni a/neu  
hurio preifat

<b>Awdur/Ceidwad:</b>	John Donnelly
<b>Dyddiad y cytunwyd ac y gweithredwyd arno:</b>	
<b>Cytunwyd gan:</b>	Y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol
<b>Amllder Adolygu:</b>	Adolygiad blynyddol (01/08/14)
<b>Dyddiad adolygu:</b>	01/11/17
<b>Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau: (dyddiad)</b>	Amherthnasol
<b>Cyfraniad Aelodau (os o gwbl)</b>	Aelod Cabinet/Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli
<b>Mewnol neu gyhoeddus:</b>	Mewnol/cyhoeddus

### RHEOLI FERSIYNAU:

<b>Cyfeirnod:</b>	<b>Statws:</b>	<b>Awdurdodwyd gan:</b>	<b>Dyddiad:</b>
001	Tynnwyd yn ôl	John Donnelly	
002	Yn fyw	John Donnelly	14/11/16
003	Yn fyw	John Donnelly	01/12/17

<b>SWYDDOGAETH</b>	<b>SWYDDOG</b>
Prosesu cais	Swyddog Trwyddedu
Nacáu cais	Prif Swyddog Trwyddedu/ Swyddog Trwyddedu/Uwch- swyddog Gorfodi Trwyddedu
Atgyfeirio'r cais at y Pwyllgor Trwyddedu	Prif Swyddog Trwyddedu/Swyddog Trwyddedu
Caniatáu/adnewyddu cais	Prif Swyddog Trwyddedu/ Swyddog Trwyddedu
Gwrthod cais	Pwyllgor Trwyddedu

# Ni all swyddogion nac aelodau'r Cyngor roi trwydded heb roi ystyriaeth i'r polisi hwn.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas y polisi hwn yw rhoi arweiniad ar y meini prawf a ystyrir gan Adain Drwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wrth benderfynu a yw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded gyfredol yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded yrru a thrwydded gweithredwr cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat. Rhaid i ymgeiswyr am drwydded gweithredwr cerbyd hurio preifat neu drwydded yrru cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni gyflwyno gwiriad uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ôl y gofyn, wrth wneud cais a phob tair blynedd ers y cais cyntaf.

1.2 Nod y polisi hwn yw gwarchod diogelwch y cyhoedd a sicrhau:

- Bod unigolyn yn unigolyn cymwys ac addas.
- Nad yw'r unigolyn yn peri bygythiad i'r cyhoedd.
- Bod y cyhoedd yn cael eu diogelu rhag unigolion anonest.
- Diogelwch i blant, pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn.
- Bod gan y cyhoedd hyder mewn gyrwyr a gweithredwyr cerbydau hacni a hurio preifat.

1.3 Mae'r polisi hwn yn ceisio rhoi arweiniad i unrhyw un sy'n gysylltiedig â thrwyddedu cerbydau hurio cyhoeddus a phreifat. Yn benodol, ond nid wedi'u cyfyngu i:

- Ymgeiswyr am drwyddedau gyrwyr.
- Gyrwyr trwyddedig presennol y mae eu trwyddedau'n cael eu hadolygu.
- Swyddogion Trwyddedu.
- Aelodau'r Pwyllgor/Panel Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol (neu gorff perthnasol arall sy'n gwneud penderfyniadau).
- Ynadon neu Farnwyr Rhanbarth (llys ynadon) sy'n gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Awdurdod Lleol.

1.4 Pan fo gan Swyddogion Trwyddedu bwerau wedi'u dirprwyo i roi trwyddedau, byddant yn defnyddio'r canllawiau hyn wrth benderfynu rhoi trwydded ai peidio. Ym mhob achos arall, bydd ceisiadau am drwyddedau'n cael eu hatgyfeirio at y Pwyllgor/Panel Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol (neu unrhyw gorff perthnasol arall sy'n gwneud penderfyniadau). Er y bydd swyddogion a'r pwyllgor/panel yn ystyried y canllawiau sydd yn y polisi hwn, **bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun** a, lle bydd angen, fe allai'r pwyllgor/swyddog wyro oddi wrth y canllawiau (rhaid cofnodi manylion ynglŷn ag amgylchiadau o'r fath a'u cadw gyda'r cais/adnewyddiad).

- 1.5 Pan fo ymgeiswyr yn methu â datgelu unrhyw euogfarnau; rhybuddion; rhybuddion cosb; gorchmynion neu gerydd blaenorol ar eu ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw achos llys sy'n aros am ddedfryd neu faterion eraill, byddant yn cael eu hatgyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol i benderfynu ar eu cais.

## **2. POLISI CYFFREDINOL**

- 2.1 Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun.

- 2.3 Nid oes angen i unigolyn ag euogfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd yn awtomatig rhag cael trwydded, ond fel arfer byddai disgwyl iddo/iddi:

- a. Barhau i fod heb euogfarn am gyfnod priodol; a
- b. Dangos tystiolaeth ddigonol ei fod/bod yn unigolyn cymwys ac addas i feddu ar drwydded (cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflwyno tystiolaeth o'r fath).

(Ni fydd bod heb euogfarn yn unig, yn gyffredinol, yn ddigon o dystiolaeth bod rhywun yn unigolyn cymwys ac addas i ddal trwydded).

- 2.3 At ddibenion y Polisi hwn, bydd y term 'materion penodedig' neu 'euogfarn' yn cynnwys y canlynol:

- a) Euogfarnau troseddol;
- b) Rhybuddion;
- c) Rhybuddion cosb benodedig neu rhybuddion cosb eraill;
- d) Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol neu orchmynion tebyg eraill;
- e) Torri amodau trwyddedu;
- f) Rhybuddion neu geryddon ffurfiol;
- g) Cyhuddiadau neu faterion yn aros treial
- h) Penderfyniad blaenorol y Cyngor.

- 2.4 Pan fo ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o drosedd, ni all y Cyngor adolygu rhinweddau'r euogfarn.

- 2.5 Pan fo ymgeisydd wedi'i farnu'n euog o gyflawni trosedd drwy gynorthwyo, ategu, cwnsela, caffael, achosi, caniatáu neu ysgogi unrhyw rai o'r euogfarnau troseddol neu foduro sydd wedi'u nodi yn y canllaw hwn, bydd y mater yn cael ei ystyried yn euogfarn berthnasol ar gyfer y mater dan sylw.

## **3. APELIADAU**

- 3.1 Mae gan unrhyw ymgeisydd y mae trwydded yrru wedi'i gwrthod iddynt, neu yrrwr trwyddedig y mae eu trwydded wedi'i

gwahardd dros dro neu wedi'i diddymu, hawl i apelio i'r llysnadon o fewn 21 diwrnod o gael gwybod.

#### **4. PWERAU**

- 4.1 Mae Adran 51 a 59 yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn dweud na ddylai cyngor dosbarth roi trwydded –
- (a) Oni bai eu bod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i fod â thrwydded yrru; neu
  - b) I unrhyw unigolyn sydd heb, yn y deuddeg mis diwethaf ac sydd heb fod, ar ddyddiad y cais am drwydded yrru, yn dal trwydded a roddwyd dan Ran III Deddf 1972 (heb fod yn drwydded dros dro) sy'n caniatáu i'r unigolyn yrru car modur.
- 4.2 Mae Adran 61 yn y Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu wahardd trwydded yrru dros dro, ei diddymu, neu ei gwrthod os yw'r ymgeisydd/deiliad trwydded wedi'u barnu'n euog o drosedd a oedd yn cynnwys anonestrwydd, anwedduster, trais; methu â chydymffurfio â darpariaethau Deddf Cymalau Heddlu Tref 1847; methu â chydymffurfio â darpariaethau Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; neu unrhyw achos rhesymol arall.
- 4.3 Mae Adran 61 (2b) yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu, os yw'n ymddangos bod hynny er lles diogelwch y cyhoedd, wahardd trwydded yrru dros dro neu ei diddymu ar unwaith. Bydd Hysbysiad Penderfyniad yn egluro pam y gwnaed y penderfyniad hwn yn cael ei roi i'r gyrrwr a bydd mewn grym pan fo'r hysbysiad wedi'i roi i'w gyrrwr. Gall y gyrrwr apelio yn erbyn y penderfyniad hwn, ond ni all yrru yn ystod y cyfnod apelio.
- 4.4 Mae Adran 62 yn y Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu wahardd trwydded gweithredwr dros dro, ei diddymu neu wrthod ei hadnewyddu os yw'r ymgeisydd/deiliad trwydded wedi'u cael yn euog o drosedd, er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; neu ar sail unrhyw ymddygiad ar ran y gweithredwr sy'n peri i'r cyngor dosbarth gredu nad ydynt yn unigolyn addas, neu o ganlyniad i unrhyw newid sylweddol yn amgylchiadau'r gweithredwr y rhoddwyd y drwydded yn seiliedig arnynt, ers ei rhoi, neu unrhyw achos rhesymol arall.
- 4.5 Mae Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) (Diwygiad) 2002 yn caniatáu i'r Cyngor ystyried pob euogfarn a gofnodwyd yn erbyn ymgeisydd am neu ddeiliad trwydded yrru cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni, p'un a ydynt wedi'u treulio ai peidio. Felly, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr holl euogfarnau perthnasol, yn enwedig pan fo hanes hir o droseddu neu batrwm diweddar o droseddu'n gyson.

- 4.6 Ym mharagraffau 4.7 i 4.10 isod, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n trin cyfnod gwahardd fel un y byddai gyrrwr wedi bod yn gymwys i wasanaethu yn ei ystod, a gall ddiystyru'r penderfyniad llys i ddiddymu neu leihau cyfnod gwahardd, un ai ar sail caledi eithriadol dan Adran 35 Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988 neu am "resymau arbennig" dan Adran 34 Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988.
- 4.7 Pan fo euogfarn ddiweddar wedi golygu gwaharddiad am gyfnod byr (llai na 56 diwrnod), ni all swyddog awdurdodedig gymeradwyo cais oni bai fod cyfnod o leiaf 12 mis o hyd wedi bod ers diwedd y cyfnod gwahardd.
- 4.8 Os oes digon o bwyntiau cosb y DVLA wedi'u casglu o fewn cyfnod o dair blynedd o dan y system adio pwyntiau i achosi neu gyfiawnhau gwaharddiad am gyfnod heb fod yn fwy na 12 mis, ni all swyddog awdurdodedig gymeradwyo cais am drwydded yrru cerbyd hurio preifat a/neu drwydded yrru cerbyd hacni oni bai fod cyfnod o 12 mis wedi bod ers diwedd cyfnod y gwaharddiad.
- 4.9 Ni all swyddog awdurdodedig gymeradwyo cais am drwydded yrru cerbyd hurio preifat a/neu drwydded yrru cerbyd hacni oni bai fod cyfnod o dair blynedd wedi bod ers diwedd gwaharddiad am fwy na 12 mis.
- 4.10 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn cymeradwyo cais am drwydded yrru cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni gan unigolyn sydd wedi'i wahardd rhag gyrru am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy.

## **5. YSTYRIED HANES TROSEDDOL WEDI'I DDATGELU**

- 5.1 Dan ddarpariaethau Adrannau 51, 55 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y sawl sy'n gwneud cais am adnewyddu trwydded yrru cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat a/neu drwydded gweithredu cerbyd hurio preifat yn unigolyn 'cymwys ac addas' i ddal trwydded o'r fath. Fodd bynnag, os oes gan ymgeisydd unrhyw faterion penodedig yn eu herbyn, bydd y Cyngor yn ystyried:
- Pa mor berthnasol yw'r trosedd(au) i'r drwydded y gwneir cais amdani.
  - Difrifoldeb y troseddau perthnasol.
  - Pryd y cyflawnwyd y trosedd(au).
  - Dyddiad y barnwyd yr ymgeisydd yn euog a'u hoedran ar yr adeg honno.
  - Y ddedfryd a roddwyd gan y llys.
  - P'un a ydynt yn rhan o batrwm o droseddu.
  - Unrhyw ffactorau eraill y gallent fod yn berthnasol.

## 6 TRAIS

- 6.1 Mae gyrwyr trwyddedig yn dod i gyswllt agos, rheolaidd gyda'r cyhoedd. Rhaid bod yn ddi-ildio gyda'r rhai sydd ag euogfarnau am droseddau sy'n ymwneud â thrais. Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd euogfarn am drosedd a oedd yn cynnwys marwolaeth.
- 6.2 Mewn achosion eraill, ni ddylid trwyddedu unrhyw un sydd o natur dreisgar tan fydd o leiaf **3 blynedd wedi bod heb euogfarn o'r fath neu o leiaf 3 blynedd ar ôl cwblhau dedfryd (pa bynnag un sydd hwyaf)**. Fodd bynnag, o ystyried cymaint o droseddau sy'n ymwneud â thrais, rhaid ystyried natur yr euogfarn yn gyntaf.
- 6.3 Oni bai fod amgylchiadau eithriadol, bydd cais **fel arfer yn cael ei wrthod** os oes euogfarn yn erbyn yr ymgeisydd am drosedd fel:
- Llofruddiaeth
  - Dynladdiad
  - Dynladdiad neu ddynladdiad ar fai wrth yrru
  - Troseddau terfysgaeth
  - Neu unrhyw droseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod
- 6.4 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod pan fo gan yr ymgeisydd euogfarn am drosedd neu drosedd(au) tebyg sy'n disodli'r rhai a nodir isod a bod yr **euogfarn yn llai na 10 mlynedd neu fod o leiaf 10 mlynedd ers cwblhau'r ddedfryd (pa bynnag un sydd hwyaf)** cyn dyddiad y cais:
- Tanau bwriadol
  - Clwyfo maleisus neu niwed corfforol difrifol sy'n hiliol waethygedig
  - Gwir niwed corfforol sy'n hiliol waethygedig
  - Niwed corfforol difrifol bwriadol
  - Lladrad
  - Perchen ar arf tanio
  - Terfysg
  - Ymosod ar swyddogion yr Heddlu
  - Ymosodiad cyffredin sy'n hiliol waethygedig
  - Anhrefn dreisgar
  - Gwrthsefyll arestiad
  - Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod
- 6.5 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod pan fo gan yr ymgeisydd euogfarn am drosedd neu drosedd(au) tebyg sy'n disodli'r rhai a nodir isod a bod yr **euogfarn yn llai na 5 mlynedd neu fod o**

**leiaf 5 mlynedd ers cwblhau'r ddedfryd (pa bynnag un sydd hwyaf)** cyn dyddiad y cais:

- Difrod troseddol sy'n hiliol waethygedig
- Trosedd sy'n hiliol waethygedig
- Trosedd sy'n grefyddol waethygedig
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod

6.6 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod pan fo gan yr ymgeisydd euogfarn am drosedd neu drosedd(au) tebyg sy'n disodli'r rhai a nodir isod a bod yr **euogfarn yn llai na 3 blynedd neu fod o leiaf 3 blynedd ers cwblhau'r ddedfryd (pa bynnag un sydd hwyaf)** cyn dyddiad y cais:

- Ymosodiad cyffredin
- Ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol
- Afräe
- Trosedd o dan Adran 5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddu, dychryn neu achosi trallod)
- Trosedd dan Adran 4 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (ofn o bryfocio trais)
- Trosedd o dan Adran 4A Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddu, dychryn neu achosi trallod yn fwriadol)
- Rhwystro
- Difrod troseddol
- Perchen ar arf (neu arf efelychol) neu unrhyw drosedd arall sy'n ymwneud ag arf, ar wahân i arf tanio
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod

6.7 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn yn y **10 mlynedd ddiwethaf neu fod o leiaf 10 mlynedd ers cwblhau'r ddedfryd (pa bynnag un sydd hwyaf)** cyn dyddiad y cais am drosedd o natur dreisgar.

## **7. TROSEDDAU RHYW AC ANWEDDUSTER**

7.1 Gan fod gyrywyr trwyddedig yn aml yn cario teithwyr ar eu pennau eu hunain a rhai diamddiffyn, bydd ymgeiswyr sydd ag euogfarnau am droseddau rhyw, yn yr holl amgylchiadau, yn cael eu hatgyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

7.2 Yn benodol:

(a) Oni bai fod amgylchiadau eithriadol, bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes euogfarn yn erbyn yr ymgeisydd am drosedd fel:

- Ymosodiad rhywiol
- Ymosodiad anwedus
- Bod yn meddu ar ffotograffau anwedus, pornograffi plant
- Treisio
- Ymosodiad drwy wanu

- Troseddau sy'n cynnwys plant neu oedolion diamddiffyn
- Camfanteisio ar buteindra
- Masnachu pobl er mwyn cam-fanteisio arnynt yn rhywiol
- Meithrin perthynas amhriodol neu ddod yn gyfaill i blentyn ar y rhyngwrwyd neu drwy ddull arall gyda'r bwriad o'u cam-drin
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod
- Troseddau a gyflwynwyd o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015

7.3 Yn ychwanegol at yr uchod, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu, fel arfer, yn rhoi trwydded i unrhyw ymgeisydd sydd ar Gofrestr y Troseddwyr Rhyw ar hyn o bryd.

7.4 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan ymgeisydd un euogfarn neu fwy am drosedd rhyw neu anwedduster.

7.5 Ymysg yr amgylchiadau y gallai'r Cyngor ddymuno eu hystyried mae amgylchiadau na fyddent yn drosedd pe baent wedi digwydd ar adeg ystyried y cais.

## 8. ANONESTRWYDD

8.1 Mae disgwyl i ymgeisydd neu ddeiliad trwydded fod yn unigolyn y gellir ymddiried ynddynt. Maent yn ymdrin â gweithredoedd arian parod ac fe allai eiddo gwerthfawr gael ei adael yn eu cerbydau. Mae gofyn i ddeiliaid trwydded adael eiddo o'r fath gyda'r heddlu o fewn 24 awr. Mae'r arfer gyffredin o ddanfôn eiddo heb y perchennog yn dangos faint mae pobl yn ymddiried mewn gyrwyr trwyddedig. Ar ben hynny, mae'n gymharol hawdd i yrrwr anonest dwyllo'r cyhoedd drwy ofyn am fwy na'r tâl cyfreithiol neu'r tâl y cytunwyd arno, ac ati. Gall ymwelwyr o dramor gael eu drysu gan ein harian ac fe allent fod yn agored i gael eu twyllo gan yrrwr diegwyddor. Am yr holl resymau hyn, ystyrir unrhyw euogfarn sy'n cynnwys anonestrwydd yn un ddifrifol.

8.2 Yn gyffredinol, dylai fod cyfnod o **o leiaf 3 blynedd heb euogfarn neu o leiaf 3 blynedd ers cwblhau'r ddeddfryd (pa bynnag un sydd hwyaf)** yn ofynnol cyn cymeradwyo cais. Mae troseddau sy'n cynnwys anonestrwydd yn cynnwys:

- dwyn
- lladrad
- twyll
- twyll budd-daliadau
- trin a derbyn nwyddau wedi'u dwyn
- ffugio
- cynllwynio i dwyllo
- casglu mwy o arian neu eiddo'n dwyllodrus
- twyllo mewn ffyrdd eraill
- mynd â cherbyd heb ganiatâd



- troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod

## 9. CYFFURIAU

- 9.1 Ystyrir unrhyw drosedd sy'n ymwneud â chyffuriau'n un difrifol. Mae natur y cyffuriau a faint ohonynt sydd, p'un a ydynt ar gyfer defnydd personol neu gyflenwol, yn faterion a fydd yn cael eu hystyried.
- 9.2 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod pan fo gan yr ymgeisydd euogfarn am drosedd sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau ac nad ydynt wedi bod heb **euogfarn am 5 mlynedd neu fod o leiaf 5 mlynedd ers cwblhau'r ddedfryd (pa bynnag un sydd hwyaf)**.
- 9.3 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod pan fo gan yr ymgeisydd fwy nag un euogfarn am droseddau sy'n ymwneud â bod â chyffuriau yn eu meddiant ac nad ydynt wedi bod heb **euogfarn am 5 mlynedd neu fod o leiaf 3 blynedd ers cwblhau'r ddedfryd (pa bynnag un sydd hwyaf)**.
- 9.4 Efallai y bydd cais gan ymgeisydd sydd ag un euogfarn am drosedd a oedd yn ymwneud â bod â chyffuriau yn eu meddiant o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf yn cael ei ystyried, ond dylid hefyd ystyried natur y cyffuriau a faint ohonynt oedd yno.
- 9.5 Os oes tystiolaeth o ddefnyddio, camddefnyddio neu ddibyniaeth ar gyffuriau'n gyson, efallai y bydd angen archwiliad meddygol arbenigol (yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 y DVLA) cyn y gall y cais fynd yn ei flaen. Os oedd yr ymgeisydd yn gaeth i gyffuriau, fel arfer, byddai angen iddynt ddangos tystiolaeth nad ydynt wedi cymryd cyffuriau am 5 mlynedd ar ôl triniaeth ddadwenwyno.
- 9.6 Bydd cyffuriau wedi'u diffinio fel:
- Unrhyw gyffuriau sydd wedi'u dosbarthu dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, Dosbarth A, B neu C;
  - Unrhyw sylwedd a restrir yn Atodlen 2 Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016.

## 10 TROSEDDAU GYRRU (MARWOLAETH)

- 10.1 Bydd unrhyw ymgeisydd sydd wedi'i gael yn euog o drosedd gyrru a arweiniodd at farwolaeth yn cael ei ystyried yn ddifrifol iawn. Cyn cymeradwyo cais, dylai ymgeisydd fod heb **euogfarn am 10 mlynedd (neu, rhaid i o leiaf 5 mlynedd fod wedi mynd heibio ers cwblhau'r ddedfryd, pa bynnag un sydd hwyaf)** os oes ganddynt euogfarn am:
- Achos marwolaeth drwy yrru'n beryglus;

- Achosï marwolaeth drwy yrru'n ddiotal tra oeddent dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau; neu
- unrhyw droseddau tebyg.

10.2 Cyn cymeradwyo cais, dylai ymgeisydd fod heb **euogfarn am 5 mlynedd (neu, rhaid i o leiaf 5 mlynedd fod wedi mynd heibio ers cwblhau'r ddedfryd, pa bynnag un sydd hwyaf)** os oes ganddynt euogfarn am:

- Achosï marwolaeth drwy yrru'n ddiotal;
- Achosï marwolaeth drwy yrru: heb drwydded, wedi'u gwahardd neu yrru heb yswiriant.

## 11 GYRRU DAN DDYLANWAD ALCOHOL NEU GYFFURIAU

11.1 Bydd euogfarn am yrru neu fod yn rheoli cerbyd tra oeddent dan ddylanwad alcohol yn cael ei ystyried yn un ddifrifol iawn. Efallai na fydd un euogfarn yn golygu y bydd y cais yn cael ei wrthod, cyhyd ag y bo o leiaf **5 mlynedd wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad**. Bydd euogfarn am 'wrthod neu fethu â darparu sampl' yn cael ei drin yr yn un modd.

11.2 Mae ymgeiswyr sydd â mwy nag un euogfarn am yrru neu fod yn rheoli cerbyd dan ddylanwad alcohol neu wrthod neu fethu â darparu sampl yn annhebygol o gael trwydded.

## 12 EUOGFARNAU MODURO

### TROSEDDAU TRAFFIG MAWR

12.1 Bydd cais gan ymgeisydd sydd â mwy nag un Trosedd Traffig Mawr, o fewn y **5 mlynedd ddiwethaf fel arfer yn cael ei wrthod ac ni ddylid ystyried unrhyw gais arall tan mae cyfnod o 1 i 3 blynedd heb euogfarnau wedi bod**.

12.2 Os bydd unrhyw euogfarn am Drosedd Traffig Mawr yn arwain at waharddiad dros dro, dylai ymgeiswyr gyfeirio at y rhan o'r canllawiau hyn sy'n dwyn y teitl "gwaharddiad dros dro".

12.3 At ddibenion y Polisi hwn, mae'r troseddau moduro canlynol yn cael eu hystyried yn 'Droseddau Traffig Mawr':

AC10	Methu â stopio ar ôl damwain
AC20	Methu â rhoi manylion neu riportio damwain o fewn 24 awr
AC30	Troseddau damwain heb eu diffinio
BA10	Gyrru yn ystod gwaharddiad drwy orchymyn llys
BA30	Ceisio gyrru yn ystod gwaharddiad drwy orchymyn llys
CU80	Torri gofynion o ran rheoli'r cerbyd, ffôn symudol
DD40	Gyrru'n beryglus

IN10	Defnyddio cerbyd sydd heb ei yswirio yn erbyn risgiau trydydd parti
LC20	Gyrru heb wneud hynny'n unol â'r drwydded
LC30	Gyrru ar ôl gwneud datganiad anwir am ffitrwydd wrth ymgeisio am drwydded
LC40	Gyrru cerbyd ar ôl methu â rhoi gwybod am anabledd
LC50	Gyrru ar ôl i drwydded gael ei diddymu neu ei gwrthod ar sail feddygol
MS50	rasio moduron ar y briffordd
MS60	Troseddau sydd heb eu cynnwys dan godau eraill
MS90	Methu â rhoi gwybodaeth ynghylch pwy oedd y gyrrwr, ac ati
UT50	Cymryd cerbyd yn waethygedig

### MÂN DROSEDDAU TRAFFIG

- 12.5 Bydd troseddau traffig eraill sydd heb eu rhestru'n cael eu trin fel 'Mân Droseddau Traffig' at ddibenion y Polisi hwn. Mae mân drosedd gyrru'n un sy'n dod â rhwng 1 a 3 pwynt cosb. Ni fydd un euogfarn am fân drosedd gyrru, fel arfer, yn golygu y bydd cais yn cael ei wrthod.
- 12.6 Gallai mwy nag un euogfarn am fân drosedd traffig arwain at wrthod cais, yn enwedig pan fo sawl euogfarn am yr un trosedd e.e. goryrru. Gall gyrrwr trwyddedig gael ei atgyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol pan fo mwy na dau drosedd.

### 13 TALIADAU HEB EU TALU NEU WYSION HEB EU BODLONI

- 13.1 Os oes gan yr unigolyn daliad i'w dalu neu wŷs heb ei bodloni, gellir parhau i brosesu eu cais, ond bydd angen adolygu'r cais pan fo'r trafodion ar ben.
- 13.2 Os yw'r taliad neu'r wŷs sy'n weddill yn ymwneud â throsedd difrifol a/neu fod hanes euogfarnau'r unigolyn (gan gynnwys euogfarnau sydd wedi'u 'cwblhau') yn awgrymu patrwm posib' o ymddygiad anghyfreithlon neu nodwedd o'u cymeriad yna, er diogelwch y cyhoedd, gellir gohirio'r cais tan mae'r trafodion wedi dod i ben neu fe ellir gwrthod y cais.

### 14. GWYBODAETH NAD YW'N YMWNEUD AG EUOGFARN

- 14.1 Os yw ymgeisydd, ar fwy nag un achlysur, wedi cael eu harestio neu eu cyhuddo, ond heb eu cael yn euog, am drosedd difrifol sy'n awgrymu y gallent achosi perygl i'r cyhoedd, dylid ystyried gwrthod y cais. Byddai troseddau o'r fath yn cynnwys troseddau treisgar difrifol a throseddau rhyw difrifol.

- 14.2 Wrth asesu'r camau i'w cymryd, rhaid ystyried diogelwch aelodau'r cyhoedd sy'n teithio o'r pwys mwyaf.

## **15. PRESWYLWYR TRAMOR**

- 15.1 Os yw ymgeisydd wedi treulio chwe mis parhaus neu fwy dramor, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl gweld tystiolaeth o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y wlad neu'r gwledydd dros y cyfnod hwnnw. Nid yw hyn yn effeithio ar yr angen am ddarparu hanes 5 mlynedd llawn mewn perthynas â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ffyrdd o gasglu'r dystiolaeth ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd [www.gov.uk/disclosure-barring-service](http://www.gov.uk/disclosure-barring-service) [www.crb.gov.uk/overseas](http://www.crb.gov.uk/overseas)

- 15.2 Bydd angen i ymgeiswyr am drwydded gweithredwr cerbydau hurio preifat ddarparu Datgeliad Manylach (oni bai eu bod wedi'u trwyddedu fel gyrrwr). Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi treulio chwe mis parhaus neu fwy dramor, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n disgwyl gweld tystiolaeth o wiriad cofnodion troseddol o'r wlad neu'r gwledydd dros y cyfnod hwnnw.

## **16 TRWYDDEDAU WEDI'U RHOI GAN AWDURDODAU ERAILL**

- 16.1 Pan fo cais am drwydded yrru cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat/trwydded gweithredwr cerbydau hurio preifat wedi'i hatgyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol i benderfynu arno mewn perthynas â'r polisi hwn, a bod gan yr ymgeisydd eisoes drwydded o'r fath gan awdurdod trwyddedu arall, bydd y canllawiau yn y polisi hwn yn dod o flaen unrhyw benderfyniad gan awdurdod trwyddedu arall.

## **17. TORRI DEDDFWRIAETH, IS-DDEDDF NEU AMOD TRWYDDEDU**

- 17.1 Mae deiliad trwydded yrru neu drwydded gweithredwr cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat y mae Swyddog Awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu, neu Heddwes, yn ei gael yn torri deddfwriaeth drwyddedu neu is-ddeddf neu amod ar y drwydded, ar yr achlysur cyntaf, yn debygol o gael rhybudd ysgrifenedig ynglŷn ag ymddygiad yn y dyfodol, cyhyd ag nad oedd diogelwch teithwyr na'r cyhoedd mewn perygl yn sgil torri'r ddeddfwriaeth, is-ddeddf neu amod drwyddedu.

- 17.2 Gall y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol roi gwaharddiad dros dro ar drwydded yrru neu drwydded gweithredwr cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat, neu ei diddymu, pan fo'r deiliad wedi torri deddfwriaeth drwyddedu, amod ar y drwydded neu is-ddeddf fwy nag unwaith, neu wneud hynny unwaith mewn modd mor ddifrifol bod angen gwahardd neu ddiddymu'r drwydded.

- 17.3 Mae'r uchod yn berthnasol heb ystyried unrhyw gamau cyfreithiol sydd ar fynd neu wedi'u cymryd.

## **18. DIDDYMU/ILDIO TRWYDDEDAU'R AWDURDOD LLEOL**

- 18.1 Bydd cais hefyd fel arfer yn cael ei wrthod os yw trwydded yr ymgeisydd wedi'i diddymu gan unrhyw awdurdod lleol am unrhyw drosedd, os diddymwyd hi **lai na 3 blynedd** cyn dyddiad y cais.
- 18.2 Bydd unrhyw geisiadau o'r fath a dderbynnir o fewn **5 mlynedd** yn cael eu hatgyfeirio'n awtomatig at y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol er mwyn penderfynu arnynt.
- 18.3 Bydd cais lle bo trwydded wedi'i hildio yn dilyn cwyn neu archwiliad gan yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn cael ei wrthod os ildwyd y drwydded **lai na 3 blynedd** cyn dyddiad y cais.
- 18.4 Bydd unrhyw geisiadau o'r fath a dderbynnir o fewn 5 mlynedd yn cael eu hatgyfeirio'n awtomatig at y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol er mwyn penderfynu arnynt.

## **19. CRYNODEB**

- 19.1 I grynhoi, efallai na fydd hanes troseddol ynddo'i hun yn golygu y bydd cais yn cael ei wrthod yn awtomatig ac ni fydd euogfarn gyfredol am drosedd difrifol, o reidrwydd, yn rhwystro ymgeisydd rhag cael trwydded byth eto. Fel mae'r paragraffau blaenorol yn dangos, yn y rhan fwyaf o achosion, byddai disgwyl i ymgeisydd fod heb euogfarn am 3, 5 neu 10 mlynedd, yn ôl yr amgylchiadau, cyn y gellir cymeradwyo cais. Fodd bynnag, efallai y bydd achlysuron pan ellir caniatáu cais cyn pen y cyfnodau a nodwyd o fod heb euogfarn.
- 19.2 Er y gall ymgeisydd fod â nifer o euogfarnau sydd, yn unigol, yn bodloni'r canllawiau uchod, rhaid ystyried yr hanes cyffredinol o droseddu wrth asesu pa mor addas yw ymgeisydd i gael eu trwyddedu. Mae cyfres o droseddau dros gyfnod yn fwy tebygol o beri pryder nag un euogfarn fach. Yn amlwg, gellir defnyddio peth disgresiwn pan mae trosedd sy'n cael ei ddatgelu'n drosedd unigol a bod amgylchiadau lliniarol, ond y brif ystyriaeth yw diogelu'r cyhoedd.

## **20. GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD**

- 20.1 Ni fydd gan Swyddogion Trwyddedu unrhyw awdurdod, cyfrifoldeb na disgresiwn wrth benderfynu rhoi trwydded heb wiriad manylach dilys (19.2) gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mewn achosion o'r fath, bydd ceisiadau am drwyddedau'n cael eu hatgyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli Cyffredinol. Er y bydd y Pwyllgor yn ystyried y canllawiau

sydd yn y polisi hwn, bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun a, lle bydd angen, fe allai'r pwyllgor/swyddog wyro oddi wrth y canllawiau (rhaid cofnodi manylion ynglŷn ag amgylchiadau o'r fath a'u cadw gyda'r cais/adnewyddiad).

20.2 Rhaid i ddogfennau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'u cyflwyno fod yn:

- Ddogfennau gwreiddiol/â dyfrnod.
- Cyflawn (yn ôl rhif tudalennau).
- O fewn tri mis o ddyddiad y datganiad.